❖ ‘Yn Gorwedd yn y Preseb’

O Faban bach, fy Ngheidwad mawr,
Mae ’nghalon iti’n grud yn awr;
Ei siglo fydd fy ngorchwyl i,
Heb ’mado mwy oddi wrthyt Ti.

Mi ganaf glod i’th Enw glân, –
Ac ni bydd diwedd ar fy nghân;
Ond canaf ar fy ngliniau’n awr
Rhyw garol fach i’r Ceidwad mawr.

J. T. Jones